

Minutes of the meeting held on the 10<sup>th</sup> September 2013, at the Memorial Hall, Y Felinheli at 7 p.m.

**PRESENT**

Ken Brown	Bethan Jones
Lena Ashley	Hywel V Jones
Pat Jones	Iestyn Harris
Siân Gwenllïan	Louise Hughes
Daniel Williams	Nerys John
Wynne Barton Financial Officer	

**1.0 WELCOMING REMARKS AND CHAIRMAN'S REPORT**

- 1.1 The members were welcomed to the September's meeting, Mrs Glena Bevan was introduced to the members and a warm welcome extended to her. The Chairman explained the reason for Mrs Bevan's visit with the Council and asked her to address the Council.
- 1.2 Mrs Bevan explained that all Nations had a memorial in Flanders for their Great War's fallen except for the Welsh. The 100 years anniversary of the start of the First World War will be in August 2014 and it is the wish of the people of Flanders for a memorial to be erected. She stated that the land and maintenance costs is to be borne by the Belgian Government therefore there was need to raise funds for the memorial its self.
- 1.3 She stated that half of the monies had been raised; it is hoped that some money will be provided by the Welsh Government. All Town and Community Councils have been Dywedodd bod hanner yr arian wedi ei godi a bod yr hanner arall yn weddill; gobeithir bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi rhan o'r arian. Roedd pob Cyngor Tref a Chymuned wedi derbyn cais ar gyfer cyfrannu. I ddyddiad doedd dim llawr o gynghorau wedi rhoi arian ond o'r rhai oedd wedi anfon arian roedd y swm oddeutu £100 - £200 yn dibynnu ar faint y cyngor.
- 1.4 Trafodwyd y mater a chytunwyd byddai cyfraniad Cyngor y Felinheli yn £200.

**Ymddiheuriadau** Siân Gwenllïan, George Smith

**2.0 DATGAN DIDDORDEB**

- 2.1 Dim

**3.0 COFNODION**

- 3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 16 Gorffennaf 2012.

**Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir ac arwyddwyd y cofnodion.**

#### **4.0 MATERION YN CODI**

- 4.1 Golau Stryd Cerrig yr Afon - cyflwynodd y Clerc eglurhad bod yr amcan bris a dderbyniwyd ym mis Chwefror bellach yn hen ac wedi mynd allan o ddyddiad; oherwydd hyn roedd wedi gofyn am un newydd oddi wrth Golau Stryd Cyngor Gwynedd. Anfonodd yr Adran Golau Stryd fanylion am Olau Stryd Solar wahanol i'r cyntaf a gyflwynwyd oherwydd roedd y math yma gyda llai o risg oddi wrth ladron, hynny yw nid oedd y panel solar yn uned ar ben ei hun ond yn rhan o'r golofn. Roedd yr Adran yn ofn byddai'r math cyntaf yn denu sylw lladron gan ei fod mewn lle anghysbell. Roedd amcan bris y golau yma yn 5,199.15.
- 4.2 Trafodwyd y mater a phenderfynwyd bod y Cyngor yn cynnig £2,000 yn unig fel cyfraniad/grant er bod yr amcan bris yma yn fwy na'r gwreiddiol.

#### **Y Clerc i gysylltu â Cerrig yr Afon gydag eglurhad a chysylltu â'r Adran Goleuo Stryd ynglŷn â chostau cynnal y golau.**

- 4.3 Menter Fachwen - cafwyd eglurhad gan y Cadeirydd am y gost o £426 fel y nodwyd yng nghofnodion y mis blaenorol, o'r pris hwn £76 oedd cost ymdrin â'r lafant. Roedd y Cadeirydd wedi gwneud cais ar gyfer cael gwirfoddolwyr i wneud gwaith ar safle Moriah yn enwedig i ymdrin a'r lafant. Roedd y Cyngorydd Daniel Williams a Sarah Riley yn barod i helpu.
- 4.4 Adran Gofal Strydoedd Cyngor Gwynedd - dywedodd y Clerc bod yr adran hon yn edrych i mewn i godi biniau sbwriel newydd i rai sydd wedi ei difrodi ac yn cyfathrebu gydag Adain Meysydd Chwarae Plant ynglŷn â mainc Glan y Môr.
- 4.5 Adran Parcio Cyngor Gwynedd – mae adran yn edrych i mewn i statws a pherchnogaeth y safleoedd parcio ar Glan y Môr.
- 4.6 Cerdded a Darganfod - Mae cyfarfod wedi ei drefnu yn y Felin Sgwrsio ar ddydd Gwener olaf y mis am 10:30 i drafod codi pwyllgor i'r fenter a fyddai yn gwneud ceisiadau am gymorth ariannol. Bydd y cyfarfod gyda Gareth Roberts o Menter Fachwen.

#### **5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**

- 5.1 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor nad oedd gyda mwy o wybodaeth ynglŷn â'r mater Larwm Tân ond ei fod mewn cysylltiad â'r pensaer.
- 5.2 Nid oedd y Pwyllgor wedi cyfarfod hyd yma ond bydd yn gwneud yn fuan.
- 5.3 Gofynnodd Cadeirydd y Cyngor os byddai'r pwyllgor yn trafod codi plac i goffau adnewyddu ac ailagor y neuadd.
- 5.4 I ddyddiad roedd £5163 yng nghyfrif y neuadd.

#### **6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.**

- 6.1 Cadarnhawyd gwariant Mis Gorffennaf a mis Awst.
- 6.2 Dywedodd y Swyddog Ariannol bod yr Archwiliad Ariannol Allanol wedi ei gwblhau ynghyd a'r Archwiliad Atodol. Roedd rhai materion wedi codi sef nid oedd enw'r Cyngor wedi ei nodi, nid oedd benthyciadau wedi ei nodi ac nid oedd polisi asesiad risg ariannol y Cyngor wedi ei fabwysiadu yn ystod cyfnod 2011 - 2012 y Cyngor.
- 6.3 Eglurodd y Swyddog Ariannol bod newid wedi bod yn bersonél y Cyngor ac oherwydd hyn roedd mater o'r polisi wedi codi, er hynny cyfeiriodd bod y polisi wedi ei fabwysiadu ym mis Ebrill/Mai 2013. Bydd y mater hwn yn derbyn sylw yng nghyfarfod mis Mai yn flynyddol o hyn ymlaen.
- 6.4 Nid oedd yr uchod yn effeithio'r archwiliad, nid oedd angen nodi benthyciadau oherwydd nid oedd gan y Cyngor Fenthyciadau, roedd rhestr a gwerth asedau y cyngor wedi ei nodi yn Llawlyfr y Cyngor.
- 6.5 Roedd y Cyngor yn derbyn Adroddiad yr Archwilwyr Allanol ac yn cymeradwyo'r datganiad; Arwyddwyd yr archwiliad i nodi hynny gan y Cadeirydd Ken Brown.
- 6.6 Diolchodd y Cyngor i'r Swyddog Ariannol am ei waith trylwyr.

### **7.0 GOHEBIAETH**

- 7.1 Cyngor Gwynedd Economi a Chymuned/Cronfeydd Cist Gwynedd - grant o £50 i gael i ar gyfer sefydlu presenoldeb y we fyd-eang. Mae'r cyngor eisoes ar y we ac felly ddim yn gallu cymryd mantais o hyn.
- 7.2 D. H Williams 69 Hen Gei Llechi Y Felinheli - Llwybr rhwng Garddfon a Hen Gei Llechi. Cafwyd trafodaeth ar y mater a gofynnwyd i'r Clerc ddod o hyd i berchennog y llwybr er mwyn anfon y llythyr ymlaen iddynt.
- 7.3 Adran Rheoleiddio Cyngor Gwynedd – Cyfyngiad Aros Stryd Fawr y Felinheli – y mater heb dderbyn gwrthwynebiad ac felly bydd y gorchymyn yn cael ei gadarnhau.

### **8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC**

- 8.1 Cafwyd Adroddiad ar y cloc gan y Cynghorydd Daniel Williams. Dywedodd ei fod wedi cael ymweliad safle gyda'r Cynghorydd Ken Brown a'r saer maen Martin Jones. Roedd y Saer Maen o'r farn bod angen pointio top y cloc, roedd y pointio gwreiddiol wedi llacio gan adael dŵr i mewn. Roedd y pointio wedi ei wneud a mortar sment yn lle mortar calch a bod dirgrynu oherwydd y traffig wedi gwaethygu'r sefyllfa. Tybia'r Saer Maen y byddai yn cymryd penwythnos o waith i'w gwblhau a bod angen sgaffald. Byddai hefyd yn fuddiol i ddigennu wyneb y cerrig a pointio y cloc cyfan.
- 8.2 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â fydda'n bosib gwneud y gwaith cyn Sul y Cofio.
- 8.3 Penderfynwyd gwneud y gwaith ar ôl Sul y Cofio.

- 8.4 Gofynnodd y Cadeirydd os byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Deon Bro i drafod gwasanaeth Sul y Cofio ac i edrych os oes modd i'r Heddlu drwy Orchymyn gau'r ffordd am ychydig o funudau adeg gwasanaeth Sul y Cofio.

## **9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO**

- 9.1 C13/0834/20/LL – Codi balcony ar gefn yr eiddo 35 Hen Gei Llechi, Y Felinheli, LL56 4PB – Dim Gwrthwynebiad.
- 9.2 C13/0702/20/LL - Codi ty tri llawr - tir ger Oaklands, Penybryn, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4YQ - Dim Gwrthwynebiad ond concern byddai codi ty yn gallu codi problemau gyda dŵr.
- 9.3 C13/0845/20/LL - cadw defnydd rhan o is-lawr adeilad presennol fel storfa/torri a phacio cig ynghyd a chodi estyniad unllawr ar flaen yr adeilad - Pant Erys Beach Road, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4RQ - Dim Gwrthwynebiad ond cadarnhau statws y safle.
- 9.4 C13/0886/20/LL – Gwaith ail-wampio gan gynnwys ail gladio adeilad presennol – Dinas Point Y Felinheli, LL56 64RX. – Dim Gwrthwynebiad.

## **10.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**

- 10.1 Cafwyd trafodaeth ynglyn a chwyn ar lafar oedd wedi dod i law ynglyn a chyflwr y fynwent cyn i'r gwaith gael ei dorri yn yr Haf.

**Penderfynwyd y byddai gwirfoddolwyr y Cyngor yn glanhau'r cerrig beddi ar ddau achlysur, wedi'r toriad cyntaf a'r olaf.**

- 10.2 Cyflwynwyd geiriad y rheol newydd ynglyn a defnyddio peiriannau unigolion i dorri'r gwair. Roedd pawb yn gytûn ar y rheol.

**Y Clerc i roddi copi newydd o'r rheolau newydd ar yr hysbysfwrdd yn y fynwent ac i ddod a sylw i'r rheol newydd yn y wasg.**

- 10.3 Trafodwyd sut y byddai'r cyngor yn gallu coffau'r Cyn Gynghorydd Pat White. Penderfynwyd codi mainc o fewn y fynwent.

## **11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**

- 11.1 Roedd problem atal mynediad wedi bodoli unwaith yn rhagor o fewn y Maes Parcio.

**Y Clerc i gynnwys y lon fynedfa ar y rhybudd.**

## **12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**

- 12.1 **Llwybr Rowen** - rhoddodd y Clerc adroddiad o'r gost a fyddai angen i ran isaf y llwybr cyn fyddai o fewn y safon i'w fabwysiadu. Byddai cost o £7,000 ar gyfer creu stepiau a chanllaw, er mwyn codi'r safon i alluogi'r anabl byddai'r gost oddeutu£ 14 - £21 mil.

**Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn anfon at Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd i wneud cais am i'r rhan ddechreuol gael ei fabwysiadu yn y lle cyntaf.**

### **13.0 CYNGHORODD SIR**

- 13.1 Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol.

### **14.0 UNRHYW FATER ARALL**

- 14.1 Cynigwyd bod y Cyngor yn llythyru Rhiannon Jones ar lwyddiant y fenter Felin Gylchu.

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9:45 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....